Y Bwrdd Craffu ac Atebolrwydd

Archwiliad Dwfn

Twyll

Microsoft Teams

5 Mai 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil – Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lee Jones (LJ) (CADEIRYDD)	Prif Weithredwr
Hannah Jenkins-Jones (HJJ)	Arweinydd Strategol ar gyfer Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Nia Scourfield (NS)	Swyddog Cymorth Llywodraethu – Craffu, Sicrwydd a Chydraddoldeb
Jayne Woodward (JW)	Arweinydd Strategol ar gyfer Ansawdd, Safonau a Chydymffurfiaeth
Heddlu De Cymru	
Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Bacon (RB)	Dirprwy Brif Gwnstabl
Ditectif Arolygydd Nick Bellamy (NB)	Ditectif Arolygydd – Troseddau Mawr
Ditectif Uwch-arolygydd Mark Kavanagh (MK)	Ditectif Uwch-arolygydd – Troseddau Cyfundrefnol
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne (DT)	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Y Ditectif Ringyll Andrew Westlake (AW)	Ditectif Ringyll – Swyddog Troseddau Economaidd
Carol Woodward (CW)	Rheolwr Sicrwydd ac Arolygu

.	Eitem ar yr agenda	Cynnwys
1.	Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau	1.1 Croesawodd LJ y rhai a oedd yn bresennol a gwnaed y cyflwyniadau. Dywedodd LJ y cafodd canfyddiadau'r archwiliad dwfn diwethaf eu huwchgyfeirio at Fwrdd Strategol y Comisiynydd oherwydd ystyriwyd ei fod yn faes â blaenoriaeth ar hyn o bryd.
2.	Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol	2.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod uwchgyfeirio blaenorol yn gofnod gwir. Cytunwyd y câi'r camau gweithredu eu trafod y tu allan i'r cyfarfod. 2.2 Cytunodd LJ y byddai sylw manwl yn cael ei roi i agweddau ar eitemau'n ymwneud â recriwtio a hyfforddi a ddeilliodd o'r cyfarfod archwiliad dwfn, ac y câi'r rhain eu hailystyried y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol.
3.	Adroddiad Sicrwydd Busnes: Casgliadau ac Argymhellion: Cynnydd o ran Gwaith Cydraddoldeb Hil a Gwrth-hiliaeth yr Heddlu	3.1 Cyfeiriodd HJJ at yr argymhellion yn ei hadroddiad a gofynnodd i'r bwrdd eu hystyried. Roedd yr argymhellion yn cynnwys ailwampio'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil ar y Cyd a sicrhau bod mesurau llwyddiant yn glir. Dywedodd HJJ hefyd y byddai'r heddlu a thîm y Comisiynydd yn cydweithio i fonitro cynnydd yn rheolaidd, drwy ddefnyddio bwrdd neu weithgor penodol. Cytunodd RB ag argymhellion yr adroddiad.
4.	Cyflwyniad – Diogelu dioddefwyr twyll sy'n agored i niwed	2.1 Cyflwynodd DT yr eitem a dywedodd fod y Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll Genedlaethol yn helpu'r heddlu i fynd i'r afael ag agweddau amrywiol ar waith yn y maes hwn gan gynnwys prosesau ar Action Fraud, ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed a sut i ofalu am ddioddefwyr twyll. Teimlai DT fod yr heddlu wedi gwneud cynnydd yn lleol o ganlyniad i arweinyddiaeth MK yn y maes hwn, maes a ystyriwyd yn risg uchel. <u>Trosolwg</u> 2.2 Rhoddodd MK drosolwg i'r bwrdd o'r modd y mae'r heddlu yn diogelu dioddefwyr twyll sy'n agored i niwed. Teimlai MK y byddai'n gyfle i'r heddlu a thîm y Comisiynydd drafod meysydd i'w gwella. 2.3 Cyfeiriodd MK at yr Asesiad Strategol Blynyddol a'r meysydd thematig sy'n rhan o MoRiLE a dywedodd fod twyll yn erbyn pobl agored i niwed yn yr 11fed safle a'i fod yn debyg i Linellau Cyffuriau a Throseddau Ieuenctid Difrifol. Dywedodd hefyd fod pryderon o hyd am y niwed seicolegol i ddioddefwyr a'r twf gofidus yn y defnydd a wneir o dechnoleg fel rhan o'r math hwn o drosedd. <u>Data/ Adroddiadau</u> 2.4 Rhoddodd NB drosolwg o daith dioddefwr drwy dwyll a'r gwasanaethau sydd ar gael iddo. Dywedodd y dylai pawb sy'n dioddef twyll yn y DU roi gwybod i Action Fraud, sef canolfan genedlaethol y DU ar gyfer rhoi gwybod am dwyll, ond dywedodd fod llawer o ddioddefwyr yn rhoi gwybod i Heddlu De Cymru yn uniongyrchol, sydd yna'n eu hysbysu sut i roi gwybod am y drosedd. Yna caiff ymchwiliadau eu cynnal gan yr heddlu yn yr ardal lle mae'r sawl dan amheuaeth yn byw.

		Dywedodd NB fod llawer o waith wedi cael ei wneud yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn lleihau achosion o or-gofnodi a nodi pobl sy'n agored i niwed. Teimlai fod gwaith i'w wneud o ran asiantaethau partner sy'n cael gwybod am dwyll ac annog dioddefwyr i roi gwybod i Action Fraud am dwyll. 2.5 Teimlai LJ fod cyfle i dîm y Comisiynydd nodi bylchau posibl o ran yr arian sydd ar gael i wasanaethau cymorth i ddioddefwyr er mwyn cefnogi gwaith yr heddlu ymhellach mewn perthynas â thwyll. Gofynnodd CP faint o ddioddefwyr sydd ar y rhestr dioddefwyr y mae'r heddlu yn ei chael bob wythnos gan y Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll Genedlaethol. Dywedodd NB fod yr heddlu yn cael tua saith yr wythnos a oedd yn cael eu dadansoddi a'u hadolygu. Cyfeiriodd CP at feirniadaeth ddiweddar ynghylch Action Fraud mewn perthynas â nodi risg a ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed a gofynnodd a oedd yr heddlu yn defnyddio matrics tebyg. Dywedodd NB y byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn cadarnhau hyn. CAM GWEITHREDU: *NB i ganfod a yw'r heddlu ac Action Fraud yn defnyddio'r un matrics sgorio wrth nodi risg a ffactorau sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed.* <u>Craffu a Goruchwylio</u> 2.6 Rhoddodd NB drosolwg o ddata perfformiad Heddlu De Cymru mewn perthynas â thwyll o gymharu â heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr. Tynnodd NB sylw at nifer yr achosion y rhoddwyd gwybod amdanynt, faint yr ymchwiliwyd iddynt a'r canlyniadau rhwng 2019 a 2021. 2.7 Rhannodd MK adborth gan Heddlu Dinas Llundain yn dilyn ymweliad ymgysylltu ym mis Chwefror 2022, pan fu'n rhaid i'r heddlu ddangos gweithgarwch mewn perthynas â gwaith yn y maes hwn. Fel rhan o'r adborth, nodwyd bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn argymhellion Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, dealltwriaeth dda o allu'r heddlu, meysydd i'w datblygu a defnyddio arloesedd i ddeall mannau lle ceir lefelau uchel o dwyll. Yn ôl yr adborth hefyd, Heddlu De Cymru yw'r unig heddlu sy'n defnyddio'r data o'r rhestr dioddefwyr i nodi ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed. Cyhoeddwyd hyn yn ddiweddarach mewn bwletin fel arfer orau er mwyn annog heddluoedd eraill i wneud yr un peth. 2.8 Roedd yr adborth hefyd yn nodi bod yr heddlu wedi cyflwyno proses lywodraethu er mwyn craffu'n fanylach ar berfformiad o ran twyll. Cyfeiriodd MK at y Grŵp Gweithrediadau Twyll a gyflwynwyd ym mis Medi 2021, sy'n cynnal cyfarfod bob deufis gydag arweinwyr twyll a benodwyd ar lefel Ditectif Brif Arolygydd o bob rhan o'r heddlu. Mae'r Grŵp yn craffu ar ymchwiliadau sydd heb eu cwblhau, yn gwerthuso perfformiad ac yn ystyried gwersi i'w dysgu. Dywedodd MK fod swyddogion yn gwybod y gallant gael cyngor a chymorth un i un gan aelodau o'r Grŵp ynghylch sut i ymdrin â thwyll a bod y syniad o "glinig twyll" yn cael ei ystyried hefyd. Gofynnodd JW a oedd unrhyw gynlluniau i gynnwys hyfforddiant ar dwyll ar gyfer yr heddlu i gyd ac awgrymodd "glinig" rhithwir i swyddogion. Cadarnhaodd NB ei fod wedi cysylltu â'r Adran Dysgu a Datblygu i drafod adolygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod sesiynau ar dwyll a rôl Action Fraud yn cael eu cynnwys fel rhan o'r hyfforddiant a chadarnhaodd fod hyn yn flaenoriaeth iddo. Gofynnodd JW hefyd a oedd dadl o blaid recriwtio arbenigwyr i'r heddlu yn y maes hwn.

2.9 Rhoddodd MK drosolwg o'r adnoddau ar gyfer y maes portffolio, drwy uno'r uned troseddau economaidd a'r uned seiberdroseddu i greu'r Uned Troseddau Economaidd a Seiberdroseddau (ECCU). Dywedodd MK fod staff a swyddogion wedi'u lleoli ym mhob rhan o ardal yr heddlu, er mwyn deall tueddiadau twyll a chynrychiolaeth ddaearyddol yn well yn Ne Cymru. Tynnodd NB sylw at nifer o swyddogaethau'r Uned Troseddau Economaidd a Seiberdroseddau, gan gynnwys adolygu gwybodaeth a chudd-wybodaeth gan y diwydiant bancio, cydlynu gweithgarwch atal troseddau a rhoi cyngor a chymorth i ddioddefwyr twyll.

2.10 Rhoddodd NB drosolwg o ddangosfwrdd yr Uned Troseddau Economaidd a Seiberdroseddau ar gyfer y tri mis diwethaf a oedd yn crynhoi gweithgarwch diweddar gan gynnwys faint o niwed ariannol a ataliwyd, nifer y bobl a gafodd gyngor ar seiberddiogelwch a digwyddiadau ymgysylltu o fewn ysgolion a sefydliadau. Cyfeiriodd CP at ddata Sefydliad yr Heddlu a sut roedd Heddlu De Cymru yn cymharu â heddluoedd eraill a gofynnodd a oedd unrhyw waith wedi'i wneud mewn perthynas â dioddefwyr y rhoddwyd cymorth iddynt ond a ddewisodd ddatgysylltu yn ddiweddarach. Teimlai NB fod angen gweithio i sicrhau rhwydwaith a dull gweithredu cydgysylltiedig ledled y DU fel bod dioddefwyr yn cael y cymorth cywir. Dywedodd AW fod dioddefwyr bob amser yn cael cyngor ar atal troseddau ni waeth beth fo'r canlyniad. Gofynnodd HJJ a oedd yr heddlu'n casglu gwybodaeth am ddemograffeg dioddefwyr risg uchel ac a oedd unrhyw nodweddion gwarchodedig, yn benodol, yn fwy agored i niwed yn y maes hwn. Dywedodd NB fod hyn yn dibynnu ar y data gan y Ganolfan, ond roedd anghymesuredd yn y data ar gyfer personau o gefndir ethnig leiafrifol. Teimlai LJ fod cyfle i edrych ar ddemograffeg y dioddefwyr drwy asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o bosibl.

<u>Dioddefwyr</u>

2.11 Rhoddodd AW drosolwg o'r modd y mae'r heddlu'n cefnogi dioddefwyr drwy roi cyngor ar atal twyll, adolygu cofnodion NICHE a chydweithio â banciau a'r Ombwdsmon Ariannol. Dywedodd AW hefyd fod dioddefwyr yn cael eu cefnogi gan asiantaethau partner fel Safonau Masnachu, prosiect Hope Age Cymru, Cymorth i Ddioddefwyr, a'r Uned Ofal Genedlaethol i Ddioddefwyr Troseddau Economaidd. Dywedodd AW fod yr heddlu'n cael cudd-wybodaeth ariannol drwy atgyfeiriadau ynghylch gweithgarwch amheus gan fanciau. Dywedodd fod chwiliadau geiriau allweddol yn cael eu defnyddio i nodi risgiau o ran camfanteisio ariannol, gan fod yr heddlu'n cael dros 800 o atgyfeiriadau bob wythnos. Gofynnodd LJ a oedd y canllawiau i staff bancio yn glir ac a fyddai modd gwella'r broses o ystyried y nifer uchel o atgyfeiriadau. Dywedodd AW fod hyn yn rhan o adolygiad y llywodraeth o weithgarwch amheus a bod llawer o asiantaethau eraill, nid dim ond banciau, yn rhan o hyn ac yn gosod baich ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Dywedodd AW fod yr heddlu'n defnyddio matrics sgorio tair haen i ddadansoddi atgyfeiriadau gweithgarwch amheus mewn perthynas â niwed ariannol i ddioddefwyr.

2.12 Rhannodd AW astudiaeth achos â'r bwrdd, a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer gwaith allgymorth ar draws ardal yr heddlu gyda swyddogion a staff i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at effaith twyll ariannol. Gofynnodd JW sut roedd yr

		heddlu'n bwriadu rhannu'r negeseuon cywir â'r cyhoedd a phartneriaid a'u haddysgu. Teimlai NB fod angen datblygu strategaeth gyfathrebu gydamserol ac roedd hwn yn faes busnes yr oedd yn bwriadu canolbwyntio arno fel arweinydd strategol. <u>Cyfryngau/Cysylltiadau</u> 2.14 Tynnodd MK sylw at rai o'r negeseuon a'r wybodaeth a rannwyd â'r cyhoedd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol gwahanol fel Twitter. Teimlai MK nad oedd y cyhoedd yn rhyngweithio ryw lawer â thrydariadau a bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r tîm Cysylltiadau Corfforaethol i gael cyngor tactegol ar sut i wella. 2.14 Dywedodd MK y byddai PCSOs, fel rhan o rôl y tîm plismona yn y gymdogaeth, yn arweinwyr busnes seiberdroseddau a thwyll ac yn cael rhywfaint o hyfforddiant ar dwyll a phwysigrwydd atal troseddau. Teimlai MK fod PCSOs yn elfen hollbwysig o ran rhoi a lledaenu'r negeseuon cywir a chyngor ar atal troseddau i aelodau o'u cymunedau. 2.15 Rhoddodd AW drosolwg o fannau lle ceir lefelau uchel o dwyll a'r modd y cafodd y mannau hyn eu nodi drwy edrych ar batrymau mewn cudd-wybodaeth a data troseddau cofnodedig. Roedd yn teimlo y byddai PCSOs yn amhrisiadwy o ran targedu'r bobl fwyaf agored i niwed yn eu hardaloedd a gwerthuso'r ymyriad mwyaf priodol, yn enwedig os nad oedd rhywun yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. 2.16 Fel rhan o'r trafodaethau â Heddlu Dinas Llundain, dywedodd MK fod sylw wedi cael ei roi i allu'r heddlu i fapio grwpiau troseddu cyfundrefnol, sy'n troseddu drwy dwyll yn bennaf. O'r 52 o grwpiau a oedd wedi'u mapio o fewn ardal yr heddlu, dywedodd MK nad oedd yr un ohonynt yn cyflawni twyll yn uniongyrchol, ond bod yr heddlu'n edrych am dwyll fel bygythiad eilaidd gan y grwpiau hyn. 2.17 Rhoddodd NB drosolwg o rôl y tîm ymchwiliadau ariannol ac adennill asedau a'r gwaith yr oedd wedi'i wneud mewn perthynas â phrosesau atafaelu arian parod a pharatoi achosion atafaelu ar gyfer y llysoedd. Yn ystod y 12 mis diwethaf, dywedodd fod troseddwyr wedi talu mwy na 3 miliwn o bunnoedd yn ôl i'r Trysorlys o ganlyniad i'r gorchmynion y mae'r tîm wedi'u cyflwyno iddynt. 2.18 Gorffennodd MK ei gyflwyniad drwy dynnu sylw at rai o'r blaenoriaethau allweddol o ran gwelliant parhaus yn y maes dros y 12 mis nesaf. Roedd y rhain yn cynnwys buddsoddi mewn capasiti a gallu i gynnal ymchwiliadau i dwyll er mwyn cynyddu canlyniadau barnwrol, mwy o bresenoldeb ar-lein i gyrraedd cynulleidfa ehangach a llenwi'r bwlch cudd-wybodaeth a dealltwriaeth o droseddwyr.

6.	Casgliadau ac Eitemau i'w Huwchgyfeirio	6.1 Crynhodd LJ drafodaethau'r bwrdd a'r modd y gallai tîm y Comisiynydd weithio gyda'r heddlu mewn perthynas â ffactorau sy'n gwneud pobl yn agored i niwed, cefnogi dioddefwyr a materion diogelu mewn perthynas â thwyll. 6.2 Cafwyd sylwadau i gloi gan HJJ a diolchodd i'r swyddogion am eu cyflwyniad cynhwysfawr a manwl a'u gonestrwydd yn ystod y trafodaethau. Teimlai HJJ fod gan dîm y Comisiynydd rôl i'w chwarae o ran cyfathrebu ac addysgu'r cyhoedd yn y maes hwn a thrafododd sut y gallai tîm y Comisiynydd gydweithio â'r heddlu i ystyried sut i rannu'r negeseuon hynny â phartneriaid. Dywedodd hefyd mai'r prif faterion a oedd yn dod i'r amlwg drwy Ffocws Dioddefwyr oedd yr anawsterau yr oedd pobl yn eu cael o ran sut i roi gwybod am dwyll. Dywedodd NB fod adroddiad gan gynrychiolydd cenedlaethol comisiynwyr yr heddlu a throseddu ar dwyll a allai fod yn ddefnyddiol i HJJ a chytunodd i rannu'r adroddiad hwn â hi. CAM GWEITHREDU: *NB i rannu'r adroddiad gan Gynrychiolydd Cenedlaethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar dwyll.* 6.3 Cadarnhaodd CW fod yr heddlu'n parhau i fonitro'r argymhellion a wnaed gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi mewn perthynas â'r maes busnes hwn. 6.4 Cadarnhaodd LJ y byddai'r canfyddiadau ac unrhyw argymhellion o'r archwiliad dwfn yn cael eu rhannu â'r bwrdd yn y cyfarfod nesaf ac y câi'r cofnodion eu rhannu ymlaen llaw.
7.	Unrhyw Fater Arall	7.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

Tabl Camau Gweithredu

Rhif	Cam Gweithredu	Perchennog
1.	***NB i ganfod a yw'r heddlu ac Action Fraud yn defnyddio'r un matrics sgorio wrth nodi risg a ffactorau sy'n golygu bod pobl yn agored i niwed.***	Nick Bellamy
2.	***NB i rannu'r adroddiad gan Gynrychiolydd Cenedlaethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar dwyll.***	Nick Bellamy